



Strategaeth y Gymraeg 2021 - 26



Cynnwys	Tudalen
Pam Fod Angen Strategaeth y Gymraeg ar Gyngor Sir Penfro?.....	3
Cyd-destun Polisi Ychwanegol.....	5
Adolygiad strategaeth 2016 – 2021.....	9
Nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro	9
Y farchnad dai a chynllunio ieithyddol	12
Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg	14
Y sector busnes	14
Ymgysylltu â rhanddeiliad a'r cyhoedd.....	15
Amcanion Strategol 2021 – 26	17
Cynllun Gweithredu 2021 – 26	18
Tystiolaeth Ategol - Atodiad A	

PAM FOD ANGEN STRATEGAETH Y GYMRAEG AR GYNGOR SIR PENFRO?

Mae Cyngor Sir Penfro wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir, a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn ehangach.

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (2015)

Mae'r rhain yn gosod dyletswydd ar Gyngor Sir Penfro i:

'Lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)— (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).' (Safon 145)

'Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi:

- (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a
- (b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:
 - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny:
 - (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.' (Safon 146)

Roedd yn ofynnol i Gyngor Sir Penfro gyhoeddi Strategaeth y Gymraeg am y tro cyntaf yn 2016. Roedd y strategaeth gychwynnol yn rhedeg tan 2021. Felly mae angen i ni adolygu'r strategaeth bresennol a chyhoeddi un newydd cyn diwedd 2021. Bydd y strategaeth 5 mlynedd newydd yn rhedeg tan 2026.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sefydlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei holl ddarpariaeth gwasanaethau a gweithgareddau.


Mae'r Ddeddf yn sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n golygu bod rhaid i ni 'weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

Cyf <https://futuregenerations.wales/wpcontent/uploads/2017/02/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf>

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Cyngor fel corff cyhoeddus i gynyddu i'r eithaf ei gyfraniad tuag at y nodau Llesiant cenedlaethol, a ddangosir isod. Fel Cyngor, mae angen i ni ymgorffori'r nodau yn ein holl waith a gwneud yn siŵr, pan ydym yn gwneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl a fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Er ei bod yn amlwg bod rhai Nodau Llesiant yn berthnasol yn benodol i'r Gymraeg, mae'n bwysig cydnabod bod gan amcanion strategol, sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn a'i gynlluniau gweithredu cysylltiedig, rôl arwyddocaol ar draws yr holl Nodau Llesiant.

Nodau llesiant



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gofyn i wasanaethau cyhoeddus unigol gymhwyso pum ffordd o weithio, yr ydym wedi'u mabwysiadu yn natblygiad y cynllun hwn.

1 HIRDY MOR Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

2 ATAL Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

3 INTEGREIDDIO Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyhoeddus eraill.

4 CYDWEITHIO Cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

5 CYNWYS Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

CYD-DESTUN POLISI YCHWANEGOL

Yn ychwanegol at Reoliadau Safonau'r Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (uchod) ceir nifer o bolisiau a strategaethau eraill sy'n arbennig o berthnasol:

Strategaethau cenedlaethol

▪ *Strategaeth Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*

Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn nodi sail gysyniadol ac egwyddorion, ynghyd â thargedau penodol, ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Y targedau penodol yw:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd miliwn erbyn 2050
- Y ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol, ac sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig eiriau yn Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013 – 15) i 20% erbyn 2050

Mae agweddau allweddol eraill i'w nodi'n cynnwys:

Ffactorau gofodol	<p>“Mae ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn parhau i fod wrth galon ein gweledigaeth. Dyma'r lleoedd yng Nghymru sy'n creu'r hinsawdd fwyaf ffafriol ar gyfer meithrin siaradwyr Cymraeg: po fwyaf yw nifer y siaradwyr sy'n byw mewn ardal ddaearyddol, po fwyaf yw'r tebygolrwydd fod ganddynt gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wrth gyfathrebu o ddydd i ddydd. Dyma hefyd y manau sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr sy'n rhugl eu Cymraeg.</p> <p>Yr hyn sy'n tueddu i nodweddu'r ardaloedd hyn yw eu bod yn wledig eu natur, a bod eu heconomiâu yn dibynnu i raddau helaeth ar y sector cyhoeddus, amaethyddiaeth a thwristiaeth, gyda threfi sy'n ganolfannau i ddarparu gwasanaethau a swyddi i ardaloedd eang.”</p>
Darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg	<p>“Mae tystiolaeth ar y defnydd o wasanaethau dwyieithog gan siaradwyr Cymraeg yn awgrymu bod amryw o ffactorau'n dylanwadu ar y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg, gan gynnwys pa mor hygyrch ac amlwg yw'r gwasanaeth, barn siaradwyr am ansawdd y ddarpariaeth, a dewisiadau ymddygiadol.”</p>
Busnes	<p>“Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o fewn y gymuned fusnes o'r manteision a'r cyfleoedd posibl a ddaw iddynt hwy a'u cwsmeriaid yn sgil cynnig darpariaeth Gymraeg. Golyga hyn y bydd angen darparu cymorth mwy gweledol ac ymarferol wedi'i deilwra i fusnesau ar faterion fel cynllunio sgiliau Cymraeg a gwella'r cyfathrebu dwyieithog a gynigir drwy eu gwasanaethau i gwsmeriaid.”</p>
Cymraeg yn y gweithle	<p>“Felly, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar y gweithle fel lleoliad strategol ar gyfer hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg. I gyflawni hyn, bydd angen llwybr mwy didrfferth i bobl ifanc allu symud ymlaen o'r system addysg i weithluoedd sy'n rhoi gwerth ar sgiliau dwyieithog fel elfen graidd o'r broses o gyflawni nodau busnes.”</p>
Pobl Ifanc	<p>“Mae tystiolaeth . . . yn awgrymu bod prinder yn gallu bod o ran y dewis o weithgareddau drwy'r Gymraeg (e.e. chwaraeon, cerddoriaeth, cymdeithasu) i bobl ifanc hyn. Credwn y gallai hyn amharu ar ddatblygiad pellach y sgiliau iaith a gafodd eu meithrin yn ystod y cyfnod addysg statudol. Mae perygl bod hyn hefyd yn atgyfnerthu'r canfyddiad mai iaith yr ystafell ddosbarth yw'r Gymraeg, nid iaith cymdeithas, gwaith a mwynhau.”</p>

Ffynhonnell: <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2017-i-21>

▪ *Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040*

Mae strategaeth cynllunio defnydd tir cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru yn datgan, “Bydd yr iaith yn cael ei hystyried o fewn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu. Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny. Mewn mannau eraill bydd gwaith datblygu yn rym cadarnhaol i annog creu seilwaith addysgol a chymdeithasol er mwyn i'r iaith allu datblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau”.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf>

Dogfennau Cyngor Sir Penfro

▪ *Rhaglen Weinyddu'r Cabinet 2018 – 22*

Mae Rhaglen Weinyddu Cabinet y Cyngor yn cynnwys ymrwymadau i:

- 'Greu amgylchedd adeiledig o ansawdd a chymunedau cynaliadwy.'
- 'Datblygu rhaglen sgiliau critigol, gan hyrwyddo Sir Benfro fel lle gwyd i fyw a gweithio, gan ddenu'r bobl a fydd yn darparu'r sylfaen sgiliau ar gyfer diwydiant y presennol a'r dyfodol.'
- 'Datblygu ein defnydd o brentisiaethau.'
- 'Datblygu siaradwyr Cymraeg yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).'
- 'Hybu a thyfu'r defnydd o'r Gymraeg'.

▪ *Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 31*

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi saith deilliant y bydd yn ofynnol eu defnyddio fel sail i lunio a mesur CSCA 2022 – 31; mae'r rhain fel a ganlyn:

- i. mwy o blant meithrin / tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- ii. mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- iii. mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
- iv. mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- v. mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol
- vi. cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- vii. cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Fe wnaeth yr Adroddiad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) i'r Cabinet (Mawrth 2021) nodi:

“Yr hyn sy'n arwyddocaol yw'r gofyniad i gynnwys, 'targed sy'n nodi'r cynnydd disgwylidig yn nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y cynllun'. Yn Sir Benfro bydd y targed hwn yn seiliedig ar gynyddu nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, o sylfaen o 22.9% (CYBLD 2020) i 33% - 37% yn 2031.

“Mae'r targed uchod yn gynydd sylweddol, a fydd yn galw am sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd a / neu ddiwygiedig mewn nifer o leoliadau ledled y sir. Mae hyn yn debygol o gynnwys cynigion a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgolion categori Dwy Ffrwd a Throsiannol sy'n weddill ddod yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar wahân, a chynigion i sefydlu darpariaeth mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth o gwbl ar hyn o bryd.”

▪ *Strategaeth Adferiad Economaidd ac Adfywio Cyngor Sir Penfro 2020 - 30*

Fe wnaeth Cabinet Cyngor Sir Penfro gymeradwyo Strategaeth Adfywio ar gyfer y sefydliad ym mis Medi 2020.

Un o elfennau'r strategaeth yw, “Band eang hollbresennol a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabit erbyn 2023. Ein huchelgais yw mai Sir Benfro fydd y sir â'r cysylltiadau digidol gorau yng Nghymru ac mae COVID-19 wedi pwysleisio pwysigrwydd band eang o ansawdd da. Rydym eisoes wedi cael mynediad at ystod o ffynonellau cyllid i hwyluso band eang gwell (megis Cronfa Her Rhwydweithiau Ffeibr Llawn Lleol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) ac rydym wedi dyrannu £2m yn y rhaglen Gyfalaf i wneud hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cyllid pellach a byddwn yn cyflwyno Strategaeth Seilwaith Digidol i'r Cabinet ym mis Hydref a fydd yn nodi manylion sut y byddwn yn gwneud y gorau o gyfleoedd, gan gynnwys band eang cymunedol, cyfleoedd trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe a 5G”.

Yn gysylltiedig â hyn, mae'r strategaeth yn nod ymrwymiad i:

“Ffordd wych o fyw. Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg, gan hybu trefniadau gweithio ystwyth, yn cefnogi'r gallu i weithio gartref, yn enwedig i'r rhai mewn meysydd gwaith proffesiynol a gwasanaethau.”

A hefyd

“Cyfleoedd gwaith o ansawdd da. Mae twf mewn sectorau megis ynni a thechnoleg forol, ochr yn ochr â chynigion mwy proffesiynol ac o ansawdd gwell mewn sectorau megis twristiaeth a lletygarwch yn rhoi mwy o gyfle ar gyfer swyddi â sgiliau uwch.”

Daeth yr Asesiad o Effaith y strategaeth i'r casgliad y “Dylai datblygu economaidd wneud cyfraniad posibl at Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus a hybu'r Gymraeg.”

<https://www.pembrokeshire.gov.uk/regeneration-project-plans>

▪ *Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI2)*

Mae gofyniad i'r system cynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg ac ystyried goblygiadau ei pholisïau ar y Gymraeg.

Yn y CDLI2 Adneuo ceir Polisi Strategol SP 17 – Y Gymraeg Mae'r polisi'n cadarnhau ardaloedd o sensitifrwydd o ran y Gymraeg a ffyrdd y bydd anghenion y gymuned Gymraeg yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar gyfer hapsafleoedd mawr (safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y polisi arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad penodol o'r effaith ar y Gymraeg mewn rhai lleoliadau.

Mae amcanion o fewn y fframwaith arfarnu cynaliadwyedd ar gyfer y CDLI2, a ddefnyddir fel sail i brofi polisïau arfaethedig, yn cynnwys amcan 7: "Diogelu a gwella rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru."

Daeth yr arfarniad cynaliadwyedd i'r casgliad bod Polisi SP 17 yn y Cynllun Adneuo ar gyfer y CDLI2 yn gydnaws ag amcan 7 (uchod).

<https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol>

ADOLYGU STRATEGAETH 2016 – 21

Cafodd adolygiad o Strategaeth y Gymraeg wreiddiol Cyngor Sir Penfro, a oedd yn rhedeg rhwng 2016 a 2021, ei gyhoeddi ar y tudalennau sydd wedi'u neilltuo i'r Gymraeg ar ein gwefan ym mis Mawrth 2021.

Mae'r adolygiad ar gael yn: <https://www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaethau-i-gwsmeriaid/paratowyd-safonau-gymraeg>

Nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro 2016 – 2020

Ym mis Mawrth 2021, fe gyhoeddodd ni ddata ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro yn 2016 a data cymharol ar gyfer 2020. Paratowyd y data gan Gyngor Sir Penfro, gan ddefnyddio data o'r Arolygon Blyneddol o'r Boblogaeth gan Stats Cymru. O ganlyniad i Gyfrifiad 2021, bydd data ychwanegol ar gael yn ystod oes y strategaeth hon.

Dengys y data:

Gallu i siarad Cymraeg

- Yn 2016, roedd nifer y bobl â'r gallu i siarad Cymraeg yn Sir Benfro (28.8%) ychydig bach yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (28.0%)
- Yn 2020, roedd nifer y bobl â'r gallu i siarad Cymraeg yn Sir Benfro (29.3%) hefyd ychydig bach yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (28.8%)
- Roedd lefel y twf yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn Sir Benfro rhwng 2016 a 2020 (0.5%) ychydig bach y tu ôl i'r cyfartaledd cenedlaethol (0.8%)

Y gallu i ddarllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar

- Yn 2016, roedd nifer y bobl â'r gallu i ddarllen Cymraeg yn Sir Benfro (25.6%) ychydig bach yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (26.2%). Felly yr oedd hi yn 2020 hefyd, pan oedd y ddwy ganran wedi gostwng ychydig. Yn 2020, roedd y nifer yn Sir Benfro'n 24.5% a'r cyfartaledd cenedlaethol yn 25.8%
- Mae nifer y bobl â'r gallu i ysgrifennu Cymraeg yn Sir Benfro'n dal i fod ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn 2016, roedd y cyfartaledd cenedlaethol yn 23.5%, a'r cyfartaledd yn Sir Benfro'n 22.5%. Yn 2020, arhosodd y cyfartaledd cenedlaethol yn gyson ar 23.5%, gyda'r ffigur yn 22.3% ar gyfer Sir Benfro
- Mae nifer y bobl â'r gallu i ddeall Cymraeg llafar yn dal i fod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Sir Benfro. Yn 2016, roedd y cyfartaledd cenedlaethol yn 32.8%, ac roedd ffigur Sir Benfro ychydig yn uwch ar 35.5%. Yn 2020, roedd y cyfartaledd cenedlaethol yn 33% ac roedd ffigur Sir Benfro ychydig yn uwch ar 36%.

Mynychder siarad Cymraeg

- Bu twf bach yn nifer y bobl yn Sir Benfro sy'n siarad Cymraeg yn llai aml nag yn wythnosol. Yn 2016, roedd y ffigur yn 6.9% ac yn 2020 roedd yn 8.4%. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, a oedd yn 6.3% yn 2016 ac yn 6.2% yn 2020
- Bu gostyngiad bach yn nifer y bobl yn Sir Benfro sy'n siarad Cymraeg yn wythnosol. Yn 2016, roedd y ffigur yn 4.1% ac yn 2020 roedd yn 3.9%. Roedd hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a oedd yn 4.6% yn 2016 ac yn 4.8% yn 2020

▪ Bu gostyngiad ychydig yn fwy yn nifer y bobl yn Sir Benfro sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol. Yn 2016, roedd y ffigwr yn 16.3% ac yn 2020 roedd yn 15.7%. Yn 2016, roedd y ffigwr ar gyfer nifer y bobl yn Sir Benfro sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (sef 15.9%) ond yn 2020 roedd ychydig yn is (gyda'r cyfartaledd cenedlaethol yn 16.2%)

Dadansoddiad yn ôl oedran

Fe wnaethom ddadansoddi gallu yn y Gymraeg yn ôl oedran, gan ddefnyddio data o'r Arolygon Blynyddol o'r Boblogaeth gan Stats Cymru. Gan bod nifer y bobl â galluoedd yn y Gymraeg yn Sir Benfro'n adlewyrchu'r cyfartaleddau cenedlaethol yn agos iawn, fe wnaethom gymhwyso canrannau cenedlaethol y rhai â galluoedd yn y Gymraeg ym mhob grŵp oedran, i nifer hysbys y bobl ym mhob grŵp oedran yn Sir Benfro.

Gan bod y cyfrifiadau eu hunain yn seiliedig ar amcangyfrifon, dylid trin y data canlyniadol â rhywfaint o bwyll. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos, yn fras, bod y twf bach yn nifer y bobl â galluoedd yn y Gymraeg yn Sir Benfro'n cael ei ysgogi gan y rhai mewn grwpiau oedran iau, gyda'r mwyafrif o fesurau'n dangos bod gostyngiadau bychain ymhlith y rhai sy'n 55 oed a throsodd.

Manylion llawn ar gael fel rhan o Atodiad A.

Newidiadau yn y boblogaeth

Dengys ystadegau gan Stats Cymru fod twf ar y cyfan ym mhoblogaeth Sir Benfro'n cael ei ysgogi gan godiadau bychain mewn mewnlifiad net h.y. mae nifer y bobl sy'n dod i fyw yn Sir Benfro ychydig yn uwch na'r nifer sy'n symud allan. Mae hyn mewn cyferbyniad â newidiadau naturiol yn y boblogaeth, lle mae'r duedd yn un o ddirywiad (h.y. mae nifer y marwolaethau'n uwch na nifer y genedigaethau gan roi gostyngiad net bach bob blwyddyn).

Fe gomisiynodd Cyngor Sir Penfro adroddiad ar Ragolygon Demograffig i helpu i oleuo datblygiad yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI2). Cynhyrchwyd hwn gan Edge Analytics yn 2018. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn dynodi twf rhagamcanol yng nghyfran y bobl dros 65 oed a chynnydd mewn aelwydydd 1 person a 2 berson (dim plant) (gweler isod).

Mae'r adroddiad yn nodi fel a ganlyn, "Rhwng 2001 a 2016, fe gynyddodd y gyfran o'r boblogaeth 65+ oed sy'n byw yn Sir Benfro-Y Tu Allan* o 18% i 24%. Er bod hyn yn gyson iawn â'r Awdurdod Unedol yn 2016 (25%), mae'n uwch na ffigwr Cymru (20%) ond yn is na ffigwr PCAP (30%) . . . mae'n dynodi proffil oedran poblogaeth sy'n hŷn ac sy'n heneiddio'n gyflymach nag sy'n amlwg ar lefel genedlaethol.

"Mae'r amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014 gan Lywodraeth Cymru yn amcangyfrif cynnydd o +2,918 dros gyfnod cynllun 2017 – 2033 gyda'r cynnydd mwyaf yn cael ei ddisgwyl yn y categorïau 1 person a 2 berson (dim plant)."

**Ardaloedd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol*


<https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-evidence-base>

Mae'n anodd dod i gasgliadau terfynol ynghylch yr effaith y bydd newidiadau rhagamcanol yn y boblogaeth yn ei chael ar nifer y bobl yn y sir â galluoedd yn y Gymraeg, gan nad yw galluoedd yn y Gymraeg ymhlith mudwyr i mewn ac allan yn hysbys.

Fodd bynnag, mae'r duedd ostyngol yn nifer y genedigaethau a'r gyfran gynyddol o'r rhai 65 oed a throsodd yn dynodi efallai na fydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith y rhai mewn grwpiau oedran iau yn unig yn ddigon i gynnal, neu wella, niferoedd cyffredinol yn y sir gyfan.

Yn seiliedig ar wybodaeth o Gyfrifiad 2011, mae canran y siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau Sir Benfro'n amrywio o 50.9% yng Nghrymoch i 5.2% yn Aberdaugleddau - Canol. *Manylion llawn ar gael fel rhan o Atodiad A*

Caiff dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg ledled y sir yn 2011 ei ddangos ar y map isod:



Canran y siaradwyr Cymraeg fesul ardal Cyngor Cymuned: Cyfrifiad 2011

Y farchnad dai a chynllunio ieithyddol

Fe wnaethom fwrw golwg ar ddata o gyfrifiad 2011, a oedd yn dangos y % sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg mewn rhanbarthau etholiadol, a data o'n cronfa ddata treth gyngor, sy'n dangos % yr ail gartrefi yn ardal pob cyngor cymuned (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u heithrio neu eu hesemptio rhag y Dreth Gyngor). *Manylion llawn ar gael fel rhan o Atodiad A.*

O hyn, fe wnaethom adnabod y cymunedau canlynol lle gellid ystyried bod canran yr ail gartrefi'n peri risg uchel i gynnal proffil ieithyddol cyfredol y gymuned, yn ogystal â'r rhai lle mae canran yr ail gartrefi'n rhwystr i dwf posibl yr iaith yn y dyfodol.

Risg i'r canlynol:	Cymuned	% yn Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (Rhanbarth Etholiadol, Cyfrifiad 2011)	% yr ail gartrefi, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u heithrio neu eu hesemptio rhag premiwm y Dreth Gyngor (Cyngor Cymuned 2021)
Portffolio ieithyddol cyfredol	Dinas Cross	38.3%	15.6%
	Llandudoch	35.5%	14.1%
	Llanrhian	30.3%	13.3%
	Trefdraeth	30%	24.5%
	Tyddewi	18.7%	16.2%
	Solfach	17.1%	19.8%
Rhwyrstr i dwf yn y dyfodol	The Havens	9.8%	29.0%
	Penalun	8.6%	11.3%
	Amroth	8.2%	14.3%
	Dinbych-y-pysgod – Gogledd	7.8%	18.3% (Dinbych-y-pysgod)
	Saundersfoot	7.2%	19.0%
	Dinbych-y-pysgod – De	7.2%	18.3%
	Llanismael	5.9%	9.5%

Yn 2020, fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar 'Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru'. Lluniwyd yr adroddiad gan Brifysgol Abertawe, Academi Hywel Teifi a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol - https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/ail-gartrefi-datblygu-polis%C3%AFau-newydd-yng-nghymru_0.pdf

“Cyflwynwyd tystiolaeth yn yr adroddiad hwn mai problem ranbarthol yw'r broblem ail gartrefi yng Nghymru sy'n effeithio ar bedwar cyngor sir yn fwy na'r un arall, sef Gwynedd, Sir Benfro, Ynys Môn a Cheredigion. Mae tri o'r cynghorau hyn ymhlith y pedwar cyngor sir a ystyrir yn 'graidd' tiriogaethol y Gymru Gymraeg draddodiadol, ac mae Sir Benfro hefyd yn cynnwys cymdogaethau sy'n sensitif yn ieithyddol yng ngogledd y sir . . . Mae'n briodol felly fod Llywodraeth Cymru yn ystyried ail gartrefi fel problem o bwys o safbwynt cynllunio ieithyddol.

“ . . . bydd angen polisïau newydd mewn llawer iawn mwy o feysydd nag ail gartrefi yn unig os yw cymunedau Cymraeg am gael eu sefydlogi dros y degawd neu ddau nesaf.

Mae'r rhagdybiaeth y bydd Brexit a Covid-19 yn arwain at ofyn cynyddol am ail gartrefi yn y blynyddoedd nesaf yn golygu mai dyletswydd yw cael ymyrraeth polisi cyhoeddus er mwyn ceisio rhwystro twf afreolus yn eu niferoedd. Bydd mynd i'r afael â hyn yn llesol i'r Gymraeg ymhob cymuned Gymraeg lle maent yn rhan sylweddol o'r stoc dai, ac yn bwysig hefyd o ran cyfiawnder cymdeithasol.

"Fodd bynnag, o ystyried yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol fel rhanbarth sy'n rhannu llawer o'r un nodweddion sosio-economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, gwelir fod yr heriau'n llawer ehangach na bygythiad ail gartrefi. Maent yn cynnwys:

- diboblogi pellach ar y gymuned Gymraeg yn sgil ailstrwythuro economaidd wedi Covid-19 a Brexit
- gwrth-drefoli yn sgil twf mewn arferion economaidd fel 'gweithio o'r cartref' a allai arwain o ganlyniad at newid cyfansoddiad ieithyddol cymunedau
- crebachu pellach ar y sector gyhoeddus oherwydd toriadau tebygol i gyllidebau yn sgil Covid-19 a Brexit, ac effaith anghymesur hyn ar y boblogaeth Gymraeg oherwydd tuedd siaradwyr Cymraeg i gronni mewn rhai sectorau yn fwy na rhai eraill
- crebachu posib ar y sector amaethyddol yn sgil Brexit, a'r posibiliad yn yr hirdymor y gall natur perchnogaeth tir yng nghefn gwlad newid mewn ffordd sylfaenol gan beri newidiadau dirfawr i wead y gymdeithas Gymraeg".

Daw'r adroddiad i'r casgliad bod y bygythiad a achosir i'r Gymraeg gan ail gartrefi'n fater rhanbarthol a lleol. Mae'r adroddiad yn trafod nifer o ymyriadau polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol posibl gan gynnwys:

- " 1. Polisi cynllunio sy'n ymdrin yn uniongyrchol ag ail gartrefi, er enghraifft trwy osod cyfyngiadau ar ddefnyddio tai annedd fel ail gartrefi.
2. Polisi cynllunio sy'n ymdrin yn anuniongyrchol ag ail gartrefi, er enghraifft trwy fabwysiadu polisiau sy'n ymwneud â thai fforddiadwy neu drwy osod cyfyngiadau perchnogaeth leol ar eiddo
3. Polisi trethiant sy'n ymwneud ag ail gartrefi."

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Penfro'n gweithredu ei bwerau disgrisiwn i godi premiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi. Mae'r premiwm yn 50% ar hyn o bryd (fe ganiateir codi uchafswm o 100%). Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

CYFLEOEDD I SIARAD CYMRAEG

Mae Cyngor Sir Penfro'n ymrwymedig i wella cyfleoedd i siarad Cymraeg yn lleoliadau addysgol y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion. Mae'r fersiwn ddrafft o'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022 – 31 yn nodi sut yr ydym yn bwriadu gwneud hyn dros y 10 mlynedd nesaf.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i wella cyfleoedd i'r rhai sy'n gadael yr ysgol barhau i siarad Cymraeg mor aml â phosibl. Heb hyn, ni fydd manteision buddsoddiadau a wneir mewn addysg Gymraeg, o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, yn cael eu gwireddu'n llawn.

Mae'r cymorth a roddir i alluogi'r rhai sy'n gadael yr ysgol i barhau i siarad Cymraeg mor aml â phosibl yn eang. Mae cyfleoedd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- *Addysg Bellach.* Mae Coleg Sir Benfro'n cael cyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, ac mae â'i fryd ar ddatblygu cyfleoedd newydd o fis Medi 2021 ymlaen
- *Dysgu oedolion a'r gymuned.* Mae'r gwasanaeth Dysgu Sir Benfro gan Gyngor Sir Penfro'n darparu cyfleoedd i oedolion (o bob oed) ddysgu Cymraeg, yn ogystal ag ystod o ddsbarthiadau hamdden a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd ystod eang o ddeunyddiau hyfforddi dwyieithog ar gael. Hefyd, mae ganddo ystod drawiadol o gyfleoedd anffurfiol i bobl gael cymorth i ddysgu Cymraeg gan gynnwys Gŵyl y Dysgwyr a Chôr y Dysgwyr
- *Dysgu seiliedig ar waith.* Mae prentisiaethau'n cael eu harwain gan sectorau. Yn Sir Benfro mae pwyslais cryf ar brentisiaethau ym maes dysgu ac addysgu, a'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, ceir prinder gweithleoedd Cymraeg, yn ogystal â phrinder aseswyr sy'n siarad Cymraeg
- *Cyfleoedd cymdeithasol.* Cefnogwyd cyfleoedd cymdeithasol gan ystod o sefydliadau gan gynnwys yr Urdd, Menter Iaith Sir Benfro, Ffermwyr Ifainc a llysgenhadon yng Ngholeg Sir Benfro ac yn Ysgol y Preseli

Y SECTOR BUSNES

Mae nifer o wasanaethau i gynorthwyo'r sector busnes i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar gael ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Helo Blod* sy'n wasanaeth rhad-ac-am-ddim i ddarparu cyfieithiadau Cymraeg a chyngor ynghylch y Gymraeg i helpu busnesau i ddefnyddio mwy o Gymraeg
- *Cymraeg Gwaith* sy'n rhaglen rad-ac-am-ddim sydd wedi'i bwriadu i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Mae ystod eang o gyrsiau ar gael
- *Menter Iaith* sy'n rhwydwaith o fudiadau cymunedol, sy'n gweithio i godi proffil y Gymraeg a hybu defnydd o'r iaith mewn ardaloedd penodol

YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID A'R CYHOEDD

Fe gynhaliom ni ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynghylch ystod o themâu a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod mis Ebrill 2021, sef:

- Parhau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
- Parhau i ddatblygu ac ehangu Addysg Gynradd ac Uwchradd Cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir
- Gwella cyfleoedd i bobl ifanc 16+ mlwydd oed ddefnyddio'r Gymraeg
- Parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu cymunedol Cymraeg i oedolion
- Cefnogi gwelliannau mewn cysylltedd digidol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar-lein
- Mae ein gweithgareddau cynllunio, tai ac adfywio yn helpu i ddiogelu a gwella cyfleoedd i siarad Cymraeg yn ein cymunedau
- Gwella'r canfyddiadau o rôl pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu arweinyddiaeth gymunedol, drwy alluogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cyngor a chyfarfodydd Pwyllgor eraill
- Cynyddu ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn Cyngor Sir Penfro

Gweithgareddau Ymgysylltu

Fe agorom ni lyfr gwesteion ar yr adran Dweud Eich Dweud ar ein gwefan o 16 Mawrth – 10 Mai 2021. Roedd llyfr gwesteion yn galluogi ymwelwyr â'r wefan i adael sylwadau am ddatblygu'r Gymraeg yn Sir Benfro mewn perthynas â'r 'themâu sy'n dod i'r amlwg' uchod. Cafodd y cyfle i gyfrannu at y llyfr gwesteion ei hyrwyddo trwy ddatganiad i'w wasg a rannwyd gyda'r cyfryngau lleol, tudalennau'r Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost uniongyrchol at gysylltiadau lleol perthnasol.

Bu dros 400 o ymweliadau â'r tudalennau Cymraeg a Saesneg yn ystod y cyfnod yr oedd y llyfr gwesteion ar agor, a chafwyd 30 o sylwadau.

Hefyd, fe drafodom ni themâu sy'n dod i'r amlwg gyda'r grwpiau canlynol:

- Grŵp Datblygu Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Penfro – cafodd themâu a oedd yn dod i'r amlwg ac awgrymiadau eraill eu trafod yng nghyfarfod y grŵp ar 26 Ebrill 2021
- Fforwm Iaith Sir Benfro – cafodd themâu a oedd yn dod i'r amlwg ac awgrymiadau eraill eu trafod yng nghyfarfod y Fforwm a gynullwyd yn unswydd ar 11 Mehefin 2021
- Aelodau Cabinet Cyngor Sir Penfro - cafodd themâu a oedd yn dod i'r amlwg ac awgrymiadau eraill eu trafod yng nghyfarfod anffurfiol y Cabinet ar 22 Mehefin 2021
- Cyfarfu cynrychiolwyr Cyngor Sir Penfro a Choleg Sir Benfro ar 28 Mehefin 2021 i fwrw golwg yn benodol ar gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ar ôl 16

Crynodeb o'r adborth a gafwyd:

Roedd themâu o'r ymatebion a gafwyd fel a ganlyn:

- Mae angen buddsoddi'n gyffredinol mewn addysg ac adfywio yn Sir Benfro, a chydabyddir yn eang bod cyfleoedd i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a'r Gymraeg yn fwy cyffredinol, yn rhan bwysig o hyn
- Er y cydnabyddir pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg, teimlir y dylai'r strategaeth gynnwys ffocws mwy eang ar hyn, gyda phwyslais ar gyfleoedd i ddatblygu'r iaith y tu allan i leoliadau addysgol
- Dylai'r Gymraeg, a chyfleoedd i'w defnyddio, gael ei hyrwyddo ledled y sir. Er bod data o Gyfrifiad 11 yn dynodi bod cyfran fwy o'r rhai sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg mewn cymunedau yng ngogledd y sir, mae ymatebion yn dynodi bod y patrwm hwn yn newid. Mae presenoldeb cyfrannau uchel o ail gartrefi a chartrefi gwyliau mewn rhai cymunedau yng ngogledd y sir a chynnydd yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ledled y sir, hefyd yn ffactorau sy'n awgrymu bod siaradwyr Cymraeg wedi'u gwasgaru'n fwy eang ledled Sir Benfro
- Bydd y Fforwm Iaith yn cyflwyno cais i Gronfa Grantiau Gwella Sir Benfro am gymorth i ddatblygu a hyrwyddo pecyn / ap gwybodaeth mewn perthynas â chyfleoedd i ddysgu / siarad Cymraeg yn Sir Benfro
- Roedd datblygu cymunedau dysgu a chymunedau seiliedig-ar-waith o siaradwyr Cymraeg (yn rhai gwirioneddol a / neu rithwir) yn cael ei ystyried yn ffordd ymlaen. Mae Diwydiannau Norman wedi llwyddo i gynorthwyo tri siaradwr Cymraeg i ddefnyddio Cymraeg yn y gwaith trwy eu clystyru gyda'i gilydd fel un tîm. Mae hwn yn ddull y gellid ei archwilio'n ehangach ar draws y Cyngor a / neu sefydliadau eraill
- Mae angen i gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg gael eu hyrwyddo'n fwy. Yn arbennig, roedd awgrymiadau y dylai busnesau allu cael mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg am ddim, ar ran eu cyflogeion.
- Mae angen i gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg wrth ryngweithio â busnesau lleol gael eu hyrwyddo'n fwy. Roedd awgrymiadau'n cynnwys mwy o ddefnydd o fathodynau / laniardiau / arwyddion ac ati sy'n croesawu'r defnydd o Gymraeg ymhlith busnesau.
- Mae Cyngor Sir Penfro wedi ei chael yn anodd asesu galluoedd Cymraeg ei holl gyflogeion, yn enwedig cyflogeion nad ydynt yn gweithio mewn swyddfa. Mae hynny er gwaethaf y ffaith ei fod wedi mabwysiadu technegau asesu tebyg i gynghorau Sir Gaerfyrddin a Cheredigion
- Fodd bynnag, roedd canfyddiad bod gwasanaethau Cyngor Sir Penfro yn Gymraeg yn gwella a bod angen hyrwyddo'r rhain

AMCANION STRATEGOL 2021 – 2026 a'r TARGED

Yn seiliedig ar adolygiad o'r gofynion deddfwriaethol, ein strategaeth flaenorol, y cyd-destun polisi ychwanegol a'r adborth a gafwyd fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu, mae ein hamcanion strategol drafft ar gyfer 2021 – 26 fel a ganlyn:

Byddwn yn:

- Datblygu ein rôl arweinyddiaeth gymunedol mewn perthynas â'r Gymraeg
- Ehangu addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion (fel y CSCA)
- Gwella cyfleoedd i'r rhai sy'n gadael yr ysgol, ac oedolion eraill, ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro
- Cefnogi'r Gymraeg yn weithredol yn ein cymunedau / sector busnes

Ceir rhagor o fanylion yn yr adran sy'n cynnwys y Cynllun Gweithredu ar y tudalennau canlynol.

Rydym yn pennu targed uchelgeisiol ar gyfer y ganran o boblogaeth Sir Benfro a fydd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2026, sef 32% (*fel a adlewyrchir yn Arolygon Blynyddol o'r Boblogaeth Stats Cymru*).

EIN CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT 2021 – 26

1. Arweinyddiaeth Gymunedol

Cam Gweithredu	Gan bwy	Tystiolaeth	Erbyn pryd
Adolygu trefniadau Llywodraethu ar gyfer Strategaeth y Gymraeg – goruchwyllo'r broses o'i rhoi ar waith, monitro ac adrodd ar gynnydd	Uwch Arweinwyr Cyfrifol	Trefniadau llywodraethu wedi'u hadolygu	2022
Gwella'r canfyddiadau am rôl pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu arweinyddiaeth gymunedol – trwy alluogi'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y Cyngor	Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Gwasanaethau TG / Cyfieithu	Mae Aelodau'r Cyngor sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y Cyngor yn gallu gwneud hynny	2026

2. Ehangu addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion (fel y CSCA)

Cam Gweithredu	Gan bwy	Tystiolaeth	Erbyn pryd
Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	2032
Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg	Fel yr uchod	Fel yr uchod	2032
Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall	Fel yr uchod	Fel yr uchod	2032
Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg	Fel yr uchod	Fel yr uchod	2032
Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol	Fel yr uchod	Fel yr uchod	2032

<p>Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018</p>	<p>Fel yr uchod</p>	<p>Fel yr uchod</p>	<p>2032</p>
<p>Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Fel yr uchod</p>	<p>Fel yr uchod</p>	<p>2032</p>
<p>Gweithgareddau allgyrsiol: Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Menter Iaith Sir Benfro fel partner arweiniol ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan ein pobl ifanc trwy amrywiaeth o weithgareddau wyneb yn wyneb yn ogystal â sefydlu presenoldeb ar-lein effeithiol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cryfhau ein perthynas â phartneriaid yn y Fforwm Iaith i dargedu gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg gan adnabod ardaloedd allweddol trwy ddefnyddio data'r Siarter Iaith. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â thargedu gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion mewn ysgolion Saesneg i ddwyn cynnydd o ran faint o Gymraeg a ddefnyddir. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y fforwm a gwasanaethau ieuenctid eraill i fapio a hyrwyddo'r ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. • Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Urdd i hyrwyddo'i hystod wych o weithgareddau a chyfleoedd preswyl i hybu'r defnydd o'r Gymraeg gan ein plant a'n pobl ifanc. • Byddwn yn addasu ac yn adeiladu ar lwyddiant ein Gwobrau Shwmae i ddod ag amryw bartneriaid o fewn y sir ynghyd i ddathlu cyfraniadau gan unigolion a 	<p>Fel yr uchod</p>	<p>Fel yr uchod</p>	<p>2032</p>

grwpiau o ran hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn ein hysgolion a'n cymunedau.			
--	--	--	--

3. Gwella cyfleoedd i'r rhai sy'n gadael yr ysgol, ac oedolion eraill, ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro

Cam Gweithredu	Gan bwy	Tystiolaeth	Erbyn pryd
Parhau i ddarparu a hyrwyddo darpariaeth ddysgu Cymraeg i Oedolion trwy ein gwasanaeth dysgu cymunedol (Dysgu Sir Benfro)	Cymraeg i Oedolion – Dysgu Sir Benfro	Adroddiadau'r Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol	2026
Archwilio cyfleoedd i sefydlu clystyrau Cymraeg gwirioneddol / rhithwir yng Nghyngor Sir Penfro	Grŵp llywodraethu	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg	2026
Diweddarau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac archwilio'r posibilrwydd y bydd yn dod yn orfodol Archwilio cyfleoedd i'r holl ddechreuwyr newydd di- Gymraeg wneud cwrs blas ar y Gymraeg	Grŵp llywodraethu	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg	2026
Rhoi cymorth i barhau i gyflwyno'r cynllun band eang cyflym iawn yn Sir Benfro, sy'n amcanu at wella cysylltedd digidol ar gyfer aelwydydd a busnesau yn y sir	TG	Gwelliant mewn cysylltedd o'r sefyllfa gyfredol lle mae gan lai na 6% o'r adeiladau yn Sir Benfro fynediad at fand eang â chyflymder o 300Mbps (band eang cyflym iawn) a lle mae gan 2.5% gyflymderau is na 2Mbps	2026
Hyrwyddo a hybu mwy o ddefnydd o'r canlynol: Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid – Gwasanaeth Cymraeg (01437 764551) https://www.sir-benfro.gov.uk/cyngor www.facebook.com/cyngorsirpenfro www.twitter.com/cyngorsirpenfro https://www.facebook.com/LearnCymraegPemb	Gwasanaethau Digidol / Dysgu Sir Benfro	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg	2026

Datblygu a gweithredu ymgyrchoedd hyrwyddo mewn perthynas â'r digwyddiadau blynyddol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ▪ Dydd Santes Dwynwen (25 Ionawr) ▪ Dydd Dewi Sant (1 Mawrth) ▪ Gŵyl y Dysgwyr (Mehefin) ▪ Diwrnod Shwmae / Su'mae (15 Hydref) ▪ Gŵyl Fach yr Hydref (16 Hydref) ▪ Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (7 Rhagfyr) 	I'w gadarnhau	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg	2026
--	---------------	---------------------------------------	------

4. Cefnogi'r Gymraeg yn weithredol yn ein cymunedau / sector busnes

Cam Gweithredu	Gan bwy	Tystiolaeth	Erbyn pryd
Mae mesurau i gryfhau'r Gymraeg wedi'u hymgorffori yn ein polisiau a strategaethau cynllunio, tai ac adfywio	Timau cynllunio, tai ac adfywio	Adroddiadau monitro polisiau a strategaethau perthnasol	2026
Byddwn yn cefnogi'r Fforwm Iaith i gynhyrchu a hyrwyddo pecyn / ap gwybodaeth ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro	Swyddog Ymchwil a Pholisi	Cynhyrchu a hyrwyddo pecyn / ap gwybodaeth	2026
Byddwn yn archwilio cyfleoedd i sicrhau cyllid i gymell busnesau lleol i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg	Swyddog Ymchwil a Pholisi / Tîm Grantiau	Adroddiad(au) i'r grŵp llywodraethu	Yn barhaus
Byddwn yn helpu i hyrwyddo sefydliadau sy'n rhoi cymorth am ddim i fusnesau lleol wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys Menter Iaith Sir Benfro, Helo Blod, Cymraeg Gwaith a.y.b.	Swyddog Ymchwil a Pholisi	Cyfradd defnyddio	2026
Byddwn yn ehangu'r adran sy'n cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg ar www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir-benfro.gov.uk	Swyddog Ymchwil a Pholisi	Adran wybodaeth wedi'i hehangu	2026

